------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 11 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

## Agenda

(204)v4

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (20 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**4 Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)**
**NDM5522 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2014/2015.

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU:

https://www.gov.uk/government/topical-events/queens-speech-2014 *[Saesneg yn unig]*

**Dogfennau ategol:**

Datganiad Ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Gwladol
Gwybodaeth am y Mesurau Seneddol yn Araith y Frenhines a ddarparwyd gan Swyddfa Cymru, Mehefin 2014
Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Papur Gwasanaeth Ymchwil

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y model datganoli treth incwm a gynigir ar gyfer Cymru, ym Mil Cymru, yn cael ei gyfyngu gan yr hyn a elwir yn fecanwaith "cyd-gerdded".

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y diffyg cynigion yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU i symud ymlaen ag unrhyw feysydd datganoli pellach a argymhellwyd gan adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU fod wedi cynnwys deddfwriaeth i ail-gydbwyso economi'r DU mewn modd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol ac yn hyrwyddo tegwch economaidd.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn parhau i adeiladu economi gryfach a chymdeithas decach.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyhoeddiad yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar ofal plant di-dreth a fydd yn golygu y bydd oddeutu 83,600 o deuluoedd yng Nghymru yn cael budd o £2,000 oddi ar gost eu gofal plant.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd y Bil Troseddau Difrifol, yn dilyn yr ymgyrch gan Aelod Seneddol Ceredigion, y Democrat Rhyddfrydol Cymreig Mark Williams, yn cynnwys darpariaeth i nodi'n glir fod creulondeb sy'n debygol o achosi niwed seicolegol i blentyn yn drosedd.

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r diwygiadau pensiwn chwyldroadol a gynigiwyd gan Weinidog y Democratiaid Rhyddfrydol Steve Webb sydd i'w cynnwys yn y Bil Pensiynau Preifat, a fydd yn rhoi rhyddid a diogelwch i bobl wedi ymddeol.

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd y Draft Governance of National Parks (England) & the Broads Bill yn cynnwys darpariaethau ar gyfer etholiadau uniongyrchol ar gyfer

awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Lloegr, yn dilyn ymgyrchu gan Aelod Seneddol Brycheiniog a Sir Faesyfed, y Democrat Rhyddfrydol Roger Williams, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi diwygiadau tebyg ar waith yng Nghymru.

**Gwelliant 9 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU, fel yr amlinellir yn y rhaglen ddeddfwriaethol, i adfer lles ariannol yn y DU.

**Gwelliant 10 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd y Biliau yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn sicrhau dyfodol gwell a mwy disglair i bobl Cymru.

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn rhoi mesurau allweddol ar waith i gynyddu ymhellach y lwfans personol i £10,500, gan adeiladu ar yr ymrwymiad ym maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer etholiad cyffredinol 2010 i gynyddu trothwy'r dreth incwm i £10,000.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

**5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM5524 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi Wythnos Gofalwyr 2014 sy'n cydnabod ac yn dathlu cyfraniad mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, sy'n darparu cymorth amhrisiadwy i deulu a ffrindiau.

2. Yn nodi'r dystiolaeth gynyddol o rôl hynod heriol gofalu, a all gael effaith andwyol ar iechyd, cyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch cymdeithasol a hamdden y rhai sy'n rhoi gofal yn ddi-dâl.

3. Yn nodi canfyddiadau adroddiad 'Prepared to Care?' 2013 a ganfu nad oedd 75 y cant o ofalwyr yn barod am rôl ofalu ac nad oedd 81 y cant yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, sy'n aml yn golygu bod gofalwyr yn teimlo'n agored i niwed ac yn ynysig.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cefnogi ymgyrch ymwybyddiaeth i annog hunan-nodi a mynediad i gymorth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl gofalwyr;

b) datblygu gwybodaeth i gyflogwyr gynorthwyo gweithwyr sy'n ceisio cael cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u rolau gofalu; ac

c) gweithio gyda darparwyr addysg i gynnig darpariaeth mwy hyblyg i alluogi gofalwyr o bob oed i gael mynediad i gyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Gellir gweld yr adroddiad 'Prepared to Care?' yma:

http://www.carersweek.org/media/k2/attachments/Prepared_to_Care_FINAL.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod 11,000 o blant yn ofalwyr.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod yr adroddiad 'Prepared to Care?' yn nodi'r trafferthion ariannol y mae

gofalwyr yn eu hwynebu ac yn gresynu fod newidiadau i hawliau nawdd cymdeithasol wedi effeithio’n niweidiol ar ofalwyr a’u teuluoedd.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd seibiant i ofalwyr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i sefydlu hawl gofalwyr i seibiant.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5523 Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**

Datganoli: Ysgogwr Arloesedd

Sut y mae datganoli wedi rhoi'r cyfle i ddatblygu mesurau arloesol yng Nghymru a sut y mae elfennau arloesol o'r fath wedi dylanwadu ar weddill y DU.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Mehefin 2014 i'w hateb ar 11 Mehefin 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**1. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru i helpu'r carcharorion hynny yng Nghymru sydd â phroblemau iechyd meddwl? OAQ(4)0441(HSS)

**2. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cardioleg yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda? OAQ(4)0442(HSS)

**3. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglŷn â'r manteision ehangach i Gymru o ran ymchwil a datblygu ym maes gofal iechyd? OAQ(4)0443(HSS)

**4. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau gordewdra yng Nghymru? OAQ(4)0439(HSS)

**5. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gynnydd a wnaed mewn cyd-gyllido cynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0455(HSS)**W**

**6. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur canlyniadau yn dilyn argymhellion yr adolygiad Ymddiried mewn Gofal? OAQ(4)0449(HSS)

**7. Andrew RT Davies: (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu Cynlluniau Gofal Unigol ar gyfer cleifion canser yng Nghymru? OAQ(4)0447(HSS)

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio meddygon teulu yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0456(HSS)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal sylfaenol yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda? OAQ(4)0452(HSS)**W**

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau strôc yng Nghymru? OAQ(4)0450(HSS)

**11. Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am statws cyfreithiol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru? OAQ(4)0457(HSS)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer atgyfeirio cleifion o ddeintyddion i ysbytai? OAQ(4)0451(HSS)

**13. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb iechyd meddwl ar gyfer plant a'r glasoed? OAQ(4)0453(HSS)**W**

**14. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0440(HSS)

**15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gryfhau cysylltiadau hyfforddi rhwng ysbytai yng Ngogledd Cymru a'r rhai yn ymddiriedolaethau'r GIG Lerpwl a Manceinion? OAQ(4)0446(HSS)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

1. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ei flaenoriaethau ar gyfer darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf yn Llanelli? OAQ(4)0191(CTP)**W**

**2. Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar allu Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0183(CTP)

**3. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0179(CTP)

**4. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad Biosffer Dyfi i ddatblygu cynaliadwy? OAQ(4)0188(CTP)**W**

**5. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amcan ar gyfer gwerthuso'r gwariant diweddar o £679,000 ar hysbysebu undebau credyd? OAQ(4)0175(CTP)**R**

**6. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Cyn penodi'r Comisiynydd newydd, a oes unrhyw gynlluniau i adolygu strwythurau atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru? OAQ(4)0177(CTP)**W**

**7. Lynne Neagle: (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith diwygio lles yn Nhorfaen? OAQ(4)0187(CTP)

**8. Andrew RT Davies: (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i fesur cynnydd o ran lleihau tlodi plant yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0182(CTP)

**9. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Cymunedau yn Gyntaf yn Abertawe? OAQ(4)0184(CTP)

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd ):** Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi ei wneud gyda'i gyfrifoldeb trawsbynciol am ddatblygu cynaliadwy ers ei benodi? OAQ(4)0185(CTP)**W**

**11. Elin Jones (Ceredigion):** Pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i Ganolfannau Cyngor ar Bopeth mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0178(CTP)**W**

**12. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod cydraddoldeb anabledd yn cael ei ymgorffori wrth gyflwyno deddfwriaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0181(CTP)

**13. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ei gamau i gefnogi'r sector gwirfoddol er mwyn hybu cymunedau cydweithredol? OAQ(4)0190(CTP)**W**

**14. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau i drechu tlodi yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0180(CTP)

**15. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi gwirfoddolwyr yn Ynys Môn? OAQ(4)0176(CTP)**W**

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda Chomisiwn y Gyfraith ynglŷn â Bil Cymru? OAQ(4)0065(CG)

**2. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am sylwadau y mae wedi eu gwneud ar faterion sy'n effeithio ar Gymru? OAQ(4)0064(CG)

**3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cynnal gyda Chomisiwn y Gyfraith? OAQ(4)0063(CG)**W**

**4. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei ddyletswyddau o ran cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn achosion cyfreithiol? OAQ(4)0062(CG)**W**